# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Mehefin 9fed 2021

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, G.Hughes, Gavin Jones a Cyng D.Morris.

**Ymddiheuriadau:**

Cyng P.Jenkins, Cyng C.Dixon

**Cofnodion Mai 2021.**

Cynnigodd S.Roberts fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng D.Morris.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Swyddog newydd Ardal y De Parc Eryri Mr D.P.Jones- mae Mr Jones wedi derbyn gwahoddiad gan y cyngor i fynychu'r cyfarfod mis Gorffennaf 14eg.

Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 7.15yp.

**Cynhorydd Sir.**

Mae'r cyngor yn drist o glywed bod Mrs Gwenfair Jenkins wedi marw.

Mae'r cyngor yn anfon ei gydymdeimlad â'r Cynghorydd Peredur Jenkins a'i deulu.

**Materion i ymwneud a CNC**

Yn dilyn cwyn arall gan aelod o'r cyhoedd am ymddygiad gwrthgymdeithasol a thaflu sbwriel ar dir CNC yn ardal y Ganllwyd ynghyd â'r pryderon sydd gan y cyngor ynghylch diffyg cynnal a chadw llwybrau cerdded, diffyg ymgynghori cyn ac yn ystod prosiectau cwympo coed mawr a'r cyflwr blêr mewn saflaeoedd cwympo coed ac o'u cwmpas sy'n arwain at broblemau gyda gwteri, cylfatiau ac arwynebau ffyrdd mae'r cyngor i wahodd aelodau'r CNC i gyfarfod mis Medi i drafod y materion hyn.

**Ciosg BT**

Trafodwyd cynning gan Sandra Cocks i ddefnyddio hen giosg BT y pentref fel 'swap shop' sydd yn rhoi cyflau i bobl i gyfnewid llyfrau darllen.

Mae'r cyngor yn awyddus i ddefnyddio'r ciosg mewn ffordd sydd yn rhoi cyfle i bobl y pentref cael cyfle i gyfathrebu a chyfnewid deunydd darllen.

Bydd y cyngor yn gyrru llythyr i Sandra hefo rhai amodau ynglyn defnydd y ciosg.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Mai 2021

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £5916.60 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Praesept | £1500.00 |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| E.W.Owen (Cyfrifydd) | £204.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £7112.60 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Derbyniwyd anfoneb o £80 oddiwrth Mr A.Evans am lanhau safle bws y pentref a Ty'n y Groes.

Cytunodd y cyngor i dalu am y gwaith.

Cyflwynodd Mr Evans amcangyfrif o £310 i lanhau, atgyweirio a phaentio Ciosg BT yn Derwen Deg ac i atgyweirio pibellau i lawr ar y safle bws.

Derbyniodd y cyngor y dyfynbris a bydd yn gofyn i Mr Evans gyflawni'r gwaith.

**Llythyrau & E.bost.**

Dim

**Unrhyw fater arall.**

Mae Cyng Gavin Jones wedi derbyn gwybodaeth o ran argaeledd diffibliwr meddygol am ddim.

Byddai gan y cyngor ddiddordeb mewn cael ail ddiffibriliwr a'i leoli yn ardal Hermon.

Bydd Cyng Jones yn adrodd yn ôl i'r cyngor yn y cyfarfod nesaf.

Cyng Morris yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion gan pobl y pentref bod y palmentydd yn y pentref wedi'u gorchuddio â chwyn a phlanhigion sy'n tyfu.

Mae Cyng Morris am i'r cyngor cysylltu a Chyngor Gwynedd i dorri glaswellt ar ochr y ffordd i'r arwyddion 40mya ochr Trawsfynydd o'r pentref er mwyn lleihau'r risgiau moduro o amgylch cyffordd y ffordd sy'n arwain at Ferndale.

Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd.

Gwesty Ty'n y Groes/ Plas Dolmelynllyn- Mae'r cyngor yn ymwneud â'r ymddangosiad a'r ffaith fod gwesty Ty'n y Groes wedi cau am gyfnod mor hir a fod cyflwr y Plas yn gwaethygu.

Clerc i gysylltu gyda'r Ymddiriedaeth Genedlaethol.